| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **26 Medi 2012** |
| **TEITL :** | **Honiad yn erbyn y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones, Cyngor Gwynedd** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar yr honiad yn erbyn y Cyng. Jones bod Cod Ymddygiad Cyngor Gwynedd i Aelodau wedi ei dorri** |

**Cefndir**

1. Yn dilyn ei ymchwiliad i honiad fod y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones, wedi torri'r cod ymddygiad i aelodau, daeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r casgliad y dylid cyfeirio'r mater ataf fel y Swyddog Monitro i'w hystyried gan y Pwyllgor Safonau. Cyflwynodd adroddiad sy'n cynnwys manylion o'r honiadau a'i ymchwiliad.

2. Mae swyddogaethau'r Pwyllgor yn yr amgylchiadau yma wedi ei osod gan Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau)(Cymru) 2001) ("y Rheoliadau"). Mae'r Rheoliadau yn darparu serch hynny mai mater i'r Pwyllgor Safonau yw penderfynu ar yr union weithdrefn i'w dilyn. I'r perwyl hwn, mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu Gweithdrefn Gwrandawiadau ei hun (gweler Atodiad 1).

3. Yn unol â gofynion y Rheoliadau, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad yr Ombwdsmon yn ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf 2012. Daeth i'r casgliad, ar sail yr adroddiad hwnnw, y dylai'r Cynghorydd Jones gael y cyfle i gyflwyno sylwadau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad y Cyngor. Symudwyd ymlaen felly i drefnu gwrandawiad yn unol â Threfn Gwrandawiadau'r Pwyllgor.

4. Mae'r Cyng. Jones wedi cadarnhau wrthyf ar lafar ar 17 Awst 2012 ei fod yn bwriadu mynychu'r gwrandawiad . Cadarnhaodd hefyd ei fod wedi derbyn yr holiadur anfonwyd ato i'w gwblhau a'i ddychwelyd fel rhan o Weithdrefn y Pwyllgor. Serch hynny, nid wyf, hyd yn hyn, wedi derbyn holiadur wedi ei gwblhau yn ôl oddi wrtho .

5. Cafwyd cadarnhad wrth yr Ombwdsmon y bydd yn anfon cynrychiolwr i'r gwrandawiad.

6. Cyflwynir y dogfennau canlynol felly i sylw'r Pwyllgor:

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | **Trefn Gwrandawiadau'r Pwyllgor Safonau (papur glas)** |
| **Atodiad 2** | **Adroddiad yr Ombwdsmon (papur melyn)** |
| **Atodiad 3** | **Llythyr dyddiedig 19.07.12 y Swyddog Monitro at y Cyng. Jones (papur gwyrdd).** |

**Argymhelliad**

7. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried yr honiad yn erbyn y Cyng. Jones yn unol â'r Drefn Gwrandawiadau ac yna dod i un o'r penderfyniadau sy'n agored iddo ei wneud. Mae'r Rheoliadau (rh.9) yn darparu bod rhaid i'r Pwyllgor, ar ôl ystyried unrhyw gynrychioliadau, ddod i un o'r penderfyniadau canlynol:

(a) nad oes dim tystiolaeth o unrhyw fethu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod ac felly nad oes angen cymryd camau mewn perthynas â'r materion sy'n destun yr ymchwiliad;

(b) bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod ond nad oes angen cymryd dim camau mewn perthynas â'r methiant hwnnw;

(c) bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod ac y dylai gael ei geryddu; neu

(ch) bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod ac y dylai gael ei atal neu ei atal yn rhannol rhag bod yn aelod o'r awdurdod hwnnw am gyfnod heb fod yn fwy na chwe mis